**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPDWG@cynulliad.cymru

2 Tachwedd 2018

Annwyl David

**Ynglŷn â: Cais am wybodaeth ynghylch y cynnydd gyda'r argymhellion yn yr adroddiad 'Sut y mae Llywodraeth Cymru'n paratoi ar gyfer Brexit?'**

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Hydref yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch parodrwydd ar gyfer Brexit. Gofynnwyd am wybodaeth bellach am hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU ac yn enwedig cyfraniad Llywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu cyhoeddi ac unrhyw gamau dilynol a gaiff eu cymryd. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth bellach am ddeddfwriaeth mewn sefyllfa 'dim cytundeb', a Chronfa Bontio'r UE.

Yn gyntaf, fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn glir y byddai canlyniad 'dim cytundeb' i'r negodiadau yn drychinebus i Gymru a'r DU yn gyfan. Rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd i gyfaddawdu yn ôl yr angen i osgoi canlyniad o'r fath.

Serch hynny, mae swyddogion yn parhau i gynllunio ar gyfer pob canlyniad posibl gan gynnwys sefyllfa 'dim cytundeb' ac mae gwaith cynllunio ar gyfer Brexit yn dwysáu. Er hynny nid oes modd paratoi ar ein pen ein hunain ac mae'r gallu i baratoi'n cael ei gyfyngu gan yr hyn y mae Llywodraeth y DU'n ei rannu. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynigion manwl ar sail tystiolaeth ar gyfer Brexit a glasbrint ar gyfer negodiadau ar sut i ddiogelu swyddi ac economi Cymru.

Hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU

Mae'r hysbysiadau technegol (TNs) yn rhoi cyngor pwysig i fusnesau, dinasyddion a chyrff cyhoeddus ar beth i'w wneud os oes Brexit 'dim cytundeb'.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi 106 o Hysbysiadau Technegol mewn pedwar swp (23 Awst, 13 Medi, 24 Medi a 12 Hydref 2018). Maent yn ymdrin ag ystod eang o faterion ond



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mae'n siomedig nad oes canllawiau wedi'u cyhoeddi mewn rhai meysydd allweddol (ee hawliau dinasyddion).

Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi trafod yr hysbysiadau technegol gyda Llywodraeth Cymru, nid yw'r broses wedi bod yn berffaith o bell ffordd. Er i'r holl hysbysiadau technegol gael eu rhannu ar ffurf ddrafft, mewn rhai achosion, ni roes Llywodraeth y DU ddigon o amser i Lywodraeth Cymru ddarparu sylwadau ar sail ystyriaeth briodol. Er i'r fersiynau terfynol o'r Hysbysiadau Technegol gael eu rhannu â swyddogol yn y Cynulliad - fel rheol rai oriau cyn iddynt gael eu cyhoeddi - nid oedd cyfle i sicrhau unrhyw newid o bwys bryd hynny ac nid oedd yn glir ymlaen llaw a oedd ein sylwadau cynharach wedi'u cymryd i ystyriaeth.

Yn eu crynswth, mae'r Hysbysiadau Technegol yn creu darlun negyddol o ganlyniadau enbyd Brexit dim cytundeb. Thema gyffredinol yr Hysbysiadau Technegol yw y bydd llawer o brosesau a ffyrdd o wneud busnes sy'n cael eu cymryd yn ganiataol ar hyn o bryd yn newid yn sylweddol neu'n dod i ben yn sydyn. Mae'r mwyafrif o'r Hysbysiadau Technegol o ddiddordeb i fusnes, a dinasyddion Cymru.

Mae'r Hysbysiadau Technegol yn amlinellu aflonyddwch, rhwystrau, biwrocratiaeth a beichiau newydd o dan 'dim cytundeb'. Maent yn cynnwys ei gwneud yn llawer anos i bobl ar wyliau deithio gyda'u ceir neu gydag anifeiliaid anwes. Maent yn golygu llai o amddiffyniad i ddefnyddwyr sy'n prynu nwyddau neu'n cymryd gwyliau tramor a phrisiau uwch ar gyfer trydan a nwyddau a gwasanaethau eraill. Gallai dinasyddion y DU wynebu heriau newydd o ran pasbortau. Yn bwysicach byth, maent yn datgelu amharu enfawr o bosibl ar fusnesau awyrofod, bwyd a chemegau Cymru. Maent yn achosi ansicrwydd pellach i gyflogwyr mewn sectorau o bwys - yn enwedig gweithgynhyrchwyr ceir Cymru, cwmnïau llongau, cludwyr ac allforwyr. Mae'r Hysbysiadau Technegol yn y swp olaf o hysbysiadau'n tanlinellu'r problemau mawr a fydd gan gyflenwyr gwasanaethau wrth werthu i mewn i farchnadoedd yr UE a hyd yn oed gweithredu ynddynt mewn rhai achosion.

Mae'r Hysbysiadau Technegol yn amlinellu newidiadau posibl sy'n codi cwestiynau ynghylch gallu ac arbenigedd cwmnïau (yn enwedig cwmnïau bach) i allu addasu a'r amser sydd ganddynt i wneud hynny. Ymhell o ryddhau'r sector preifat i dyfu, mae Brexit dim cytundeb yn gosod beichiau enfawr newydd ar fasnach â'r UE, sef marchnad allforio fwyaf Cymru.

Yn syml, mae'r Hysbysiadau Technegol yn tanlinellu neges allweddol Llywodraeth Cymru: bod rhaid osgoi sefyllfa lle na ellir dod i gytundeb.

<u>Cyfathrebu Llywodraeth Cymru</u>

Ochr yn ochr â'r Hysbysiadau Technegol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i ddarparu ei gwybodaeth ei hun yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at drafodaethau â rhanddeiliaid ar effeithiau posibl Brexit heb gytundeb.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu grwpiau i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafodd Fforwm Cynghorol Rhanddeiliaid Gweinidogol Brexit ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei sefydlu yn dilyn digwyddiad bord gron a drefnwyd gan Gydffederasiwn y GIG yng Nghymru ar 11 Medi. Mae'n cynnig fforwm ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid allweddol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol wrth gynllunio ar gyfer Brexit. Mae'n cynnwys uwch arweinwyr o blith y sector Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn cael ei arwain gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 25 Hydref. Cynhaliwyd Grŵp Rhanddeiliad Bord Gron ar Brexit ym maes yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar ôl y refferendwm, fel fforwm ar gyfer

ymgysylltu a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sectorau bwyd, pysgodfeydd, ffermio, coedwigaeth a'r amgylchedd.

Ym mis Medi cafodd Porthol Busnes Brexit ei lansio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae’r porthol yn rhoi cyngor ymarferol i fusnesau i'w helpu i baratoi ar gyfer ystod o sefyllfaoedd Brexit gan gynnwys sefyllfa dim cytundeb. Mae'r Porthol wedi'i ddylunio i roi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i gwmnïau yng Nghymru ynghyd â chanllawiau ar amrywiaeth o faterion pwysig gan gynnwys masnachu rhyngwladol a chynllunio’r gweithlu. Mae'r adborth gan fyd busnes wedi bod yn gadarnhaol.

Mae swyddogion wedi cydategu hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU â chanllawiau ychwanegol yn ôl yr angen. Ar ôl i'r hysbysiad technegol ar Gronfeydd Strwythurol a gwarant y Trysorlys gael eu cyhoeddi, ysgrifennodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru at randdeiliaid i ehangu ar beth y byddai hynny'n ei olygu yng nghyd-destun Cymru. Bu cyfathrebu hefyd â GIG Cymru. Pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor ym mis Medi, dywedais y byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyfathrebu hwn ac mae'r llythyron o dan sylw ynghlwm wrth y llythyr hwn. Bydd swyddogion yn parhau i ystyried pa wybodaeth bellach y gallai fod ei hangen dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

## Deddfwriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r newidiadau y mae angen eu gwneud i'r llyfr statud os na lwyddir i sicrhau cytundeb, er mwyn cael llyfr statud cwbl weithredol adeg ymadael. Mae rhaglen o is-ddeddfwriaeth wedi'i chreu i wneud y cywiriadau hyn mewn pryd am y diwrnod ymadael.

Fel rheol, lle bo’r pwerau yn nwylo Gweinidogion Cymru, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am ddeddfu dros Gymru. Er hynny, yn wyneb amgylchiadau eithriadol ymadawiad y DU â'r UE, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gallai Llywodraeth y DU wneud cywiriadau mewn rhai meysydd datganoledig er mwyn cael llyfr statud cwbl weithredol ar y diwrnod ymadael, lle nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer y cywiro.

Rydym yn rhagweld ar hyn o bryd y caiff rhyw 55 o Offerynnau Statudol Ymadael eu gosod yn y Cynulliad Cenedlaethol rhwng Tachwedd a dechrau Chwefror. Caiff y mwyafrif o'r Offerynnau Statudol eu gwneud gan ddefnyddio pwerau Deddf yr UE (Ymadael), er y gallai nifer bach iawn gael eu gwneud o dan bwerau cyfredol eraill. Gallai'r nifer hwn newid gan y gallai rhai Offerynnau Statudol gael eu huno neu eu gwahanu, wrth i'r gwaith drafftio gael ei gwblhau.

Rydym yn rhagweld y caiff rhyw 150 o Offerynnau Statudol eu gosod yn Senedd y DU i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, er y gallai'r nifer hwn newid wrth i'r gwaith drafftio fynd rhagddo, oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod neu oherwydd y gallai gwahaniaethau polisi ddod i'r amlwg yn ystod y drafftio a Llywodraeth Cymru'n penderfynu deddfu ar gyfer Cymru o’r herwydd.

Cafodd yr Offeryn Statudol Ymadael cyntaf y DU mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru i’w gwneud o dan yr adrannau perthnasol o Ddeddf yr UE (Ymadael) ei osod yn Senedd y DU ar 24 Hydref, a bydd y broses osod yn parhau dros y misoedd nesaf. Bydd offerynnau statudol Cymru'n dechrau cael eu gosod o fis Tachwedd ymlaen. Er hynny, oherwydd y rhynddibyniaethau rhyngddynt a’r newidiadau a wneir gan ddeddfwriaeth y DU, ni ellir gosod cyfran sylweddol o Offerynnau Statudol Cymru cyn i Offerynnau Statudol cyfatebol y DU gael eu gosod. Mae hynny'n golygu y bydd unrhyw oedi i raglen Offerynnau Statudol y DU yn arwain at oedi yn achos rhaglen Offerynnau Statudol Cymru.

Cronfa Bontio'r UE

Bydd Cronfa Bontio'r UE, y cafwyd rhagflas arni yn y Gyllideb Derfynol y llynedd ac a gyhoeddwyd gennyf yn gynharach eleni, yn cynnwys dyraniadau cyllid penodol a wneir fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2019-20.

Dyluniwyd Cronfa Bontio'r UE i helpu sefydliadau'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer Brexit. Bydd yn cynnig cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ledled Cymru i gynllunio ar gyfer y newidiadau a gysylltir ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Hybu Cig Cymru, Cydffederasiwn y GIG a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ymhlith eraill.

Mae'r ymyriadau yr ydym yn eu cefnogi gyda Chronfa Bontio'r UE hyd yn hyn yn cynnwys £5m i gefnogi'r sectorau ffermio, bwyd a physgota ar ôl Brexit; £200k ar gyfer gwaith ymchwil ar effeithiau tebygol a'r goblygiadau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol; cymorth o £3.5m i Brifysgolion Cymru ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel man astudio; cyllid o £6m ar gyfer hyfforddi a gwella sgiliau'r gweithlu yn y sectorau modurol a'r diwydiant awyrofod; a chymorth o £150k i CLlLC hwyluso awdurdodau gyda chynlluniau a pharodrwydd ar gyfer Brexit.

Yn ogystal, ar 24 Hydref cyhoeddwyd cynllun ‘Cadernid Busnes’ gwerth £7.5m sy'n ceisio helpu busnesau wrth iddynt addasu i'r amgylchedd busnes newydd, gan ddatblygu'r arbenigedd a'r prosesau y mae eu hangen i gefnogi dilyniant busnes ac i ymchwilio i gyfleoedd newydd am dwf, gyda chymorth cyngor arbenigol. Bydd yn gwella yn sylweddol ein dealltwriaeth gyffredinol o ffrydiau masnach rhwng Cymru a gweddill y DU a'r tu hwnt i lywio penderfyniadau strategol yn y dyfodol. Bydd yn helpu busnesau i hybu capasiti i werthu Cymru i'r byd ynghyd â chryfhau amlygrwydd Cymru fel man ar gyfer masnach a buddsoddi, gan godi proffil ac amlygrwydd gwasanaethau Llywodraeth Cymru a chymorth i fusnes a hyder byd busnes.

I gynnig sail ar gyfer y gwaith hwn gyda chyfraniad o £350k oddi wrth y Gronfa rydym yn sefydlu partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i lywio ein dull gweithredu yn y dyfodol o ran buddsoddi rhanbarthol a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar waith. Bydd hyn yn gwella ein dealltwriaeth o arferion gorau rhyngwladol, yn llywio'r broses o symud o systemau ariannu'r UE wrth inni greu model rhanbarthol newydd a chefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Mae cyhoeddiadau diweddar gan Airbus yn dangos y risgiau y mae Cymru'n eu hwynebu o ganlyniad i'r ansicrwydd ynghylch Brexit. Mae ein cefnogaeth i sgiliau ac anghenion hyfforddiant gweithwyr yn rhai o'r cadwyni cyflenwi mwyaf arwyddocaol ym myd busnes ar yr adeg ansicr hon yn dangos ein camau gweithredu cadarnhaol ac ymrwymiad iddynt fel cyflogwyr a'u cyflogeion.

Rydym yn parhau i ystyried Cymru'n lle cefnogol i wneud busnes ac i ddangos y pwyslais yr ydym yn ei roi ar wella sgiliau ac ailhyfforddi ar yr adeg heriol hon. Mae'n hanfodol manteisio ar bob cyfle i roi mwy o sgiliau trosglwyddadwy i'r gweithlu er mwyn i Gymru barhau i gael ei gweld fel man dymunol i fusnesau, yn arbennig ar ôl Brexit.

Mae ein rhaglen cymorth sgiliau uniongyrchol yn gofyn am gyfraniad cyfatebol o 50%, a bydd ein cymorth ar gyfer Airbus er enghraifft yn ei dro'n arwain at fuddsoddi pellach yn y gweithlu gan y cwmni. Bydd ein cymorth ariannu hefyd yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau canlyniadau pellach, gan ddarparu nifer mawr o brentisiaid a fydd ar gael wedyn i'r

farchnad lafur ehangach, ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant Cymru gan gynnwys addysg bellach ac uwch yn ogystal ag ysgolion. Bydd ymgysylltu hefyd â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod yr hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer cymorth uniongyrchol ychwanegol o ansawdd uchel ac yn ddymunol i'r sector a bod y sgiliau sy'n cael eu hariannu'n drosglwyddadwy. Mae'r ymyrraeth felly'n cael ei darparu mewn ffordd sy'n cefnogi cyflogeion i gynyddu sgiliau mewn maes a fydd yn helpu eu rhagolygon o safbwynt eu gyrfa a chyflogaeth yn y dyfodol.

Bwriedir i'n cefnogaeth i CLlLC wella gwybodaeth a dealltwriaeth a helpu i nodi'r gwaith paratoi y mae ei angen ar draws llywodraeth leol. Bydd CLlLC yn comisiynu ymchwil, yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau a gweithdai ar Brexit, yn rhannu adnoddau a phecynnau cymorth i Awdurdodau Lleol eu haddasu a'u defnyddio yn lleol, a bydd yn ymdrin â materion Brexit megis y gweithlu, rhaglenni ariannu yn y dyfodol, rhwydweithio a phartneriaethau, caffael, cymorth gwladwriaethol a chymorth i fusnesau.

Wrth gwrs, ochr yn ochr â'r cymorth hwn i CLlLC ceir ymyriadau pwrpasol eraill megis ymchwil ar ofal cymdeithasol a dibyniaeth ar wladolion yr UE a fydd yn helpu gyda gwaith cynllunio a pharatoi ym maes llywodraeth leol wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau ein bod yn cefnogi gwladolion yr UE gyda'r cynllun Statws Preswylydd Sefydlog ac i ddiogelu cydlyniant cymdeithasol ar ôl Brexit, ac fe gaiff manylion pellach am y ffrydiau gwaith hyn eu rhannu â'r Pwyllgor pan fyddant yn derfynol.

Ar hyn o bryd mae Cymru'n cael cyllid buddsoddi strwythurol gan yr UE, y defnyddir llawer ohono i gefnogi'r awdurdodau lleol. Rydym yn parhau i bwyso am fuddsoddiad newydd llawn i ganiatáu inni barhau i ariannu diwygiadau strwythurol, gan gynnwys gyda llywodraeth leol ar yr un lefel.

Gobeithio y bydd hyn o ddefnydd wrth barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer parodrwydd wrth inni nesáu at fis Mawrth 2019.

Yn gywir



**CARWYN JONES**